**CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **NOS LUN, 12fed CHWEFROR, 2024,** yn Festri Capel Hebron, Llangwnnadl, o 7.30 y.h. hyd 8.25 y.h.

Presennol: Y Cynghorydd Siôn Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Elin Hughes, Gwenan Griffiths, Dylan Parry Jones, Glyn Roberts, Carys E. Williams, Glenys Williams, Iwan J. Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Michael Strain

100. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**Estynnodd** y Cadeirydd groeso i'r aelodau i'r cyfarfod.
Llongyfarchodd Y Cynghorydd Glyn Roberts ar gyhoeddiad ei lyfr 'Melinau Llŷn.
Yn yr un modd diolchodd iddo am ei waith ymchwil mae wedi ac yn ei wneud ar hen hanesion yma yn Llŷn a'r nosweithiau difyr o sgyrsiau mae'n eu cynnal.

**101. DATGAN BUDDIANT PEROSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

102. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 8fed IONAWR, 2024**

**Cyflwynwyd**, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofion y Cyngor a gynhaliwyd 8fed Ionawr, 2024. (Cynigiwyd gan y Cynghorydd Glenys Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Iwan James Williams gyda phawb yn cefnogi.

**MATERION YN CODI**

**(a) Eitem 92 Cadarnhau Cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 11eg Rhagfyr, 2023 – cymal Eitem 89 – Astudio'r Gymraeg**

**Adroddodd** y Clarc nad oedd wedi derbyn ymateb gan Bennaeth Ysgol Pont-y-Gôf a **phenderfynwyd** anfon yn uniongyrchol at y Pennaeth Addysg yng Nghyngor Gwynedd ynglyn a'r Uned Iaith yn Llangybi. (Dyfynnir isod y neges anfonwyd at y Pennaeth Addysg):

"Yn ystod y ddwy/dair blynedd ddiwethaf gwelwyd cynnydd yn y boblogaeth ddi-Gymraeg sydd wedi dod i'r ardal ac felly y nifer o blant di-Gymraeg sydd yn mynychu ein hysgolion. Nid oedd hyn yn peri unrhyw ofid yn y gorffennol gan fod y plant hynny yn cael mynychu y Ganolfan Iaith yn Llangybi ac yn cael eu trochi yn y Gymraeg ac ar ôl cyfnod yn dod yn ôl i'r ysgolion yn Gymry ac yn gallu cyfathrebu gyda'i cyfoedion yn yr iaith Gymraeg. Deallir bellach fod oriau'r Ganolfan Iaith wedi cael eu cwtogi ac o'r herwydd fod y plant di-Gymraeg yn cael eu cadw yn yr ysoglion lleol. Onid yw hyn yn peri gofid gan y gall y disgyblion sy'n dod o aelwydydd Cymraeg droi o'u mamiaith i gyfarthrebu gyda'r plant hyn. 'Rydym wedi clywed fod hyn yn digwydd yn barod ac fod cryn bryder fod yr iaith Saesneg i'w chlywed fwy ar iard yr Ysgol ac hefyd yn yr ystafell ddosbarth gan fod yr athro yn treulio mwy o'i (h)amser yn cyfarthrebu gyda'r disgyblion yn y ddwy iaith.
O gofio fod nifer o'r Cynghorau Cymuned ym Mhen Llŷn bellach wedi mabwysiadu'r Siarter Iaith er diogelu'r Gymraeg yn ei mamwlad, teimlwn fod yr adnodd a gynigir yn Llangybi yn hollol hanfodol ac fod angen ei hadfer i gynnig y gwasanaeth fel yn y gorffennol.
Gofynnwn i chwi fel Cyngor ystyried yn ddifrifol yr effaith mae cwtogi'r oriau dysgu yn y Ganolfan Iaith yn Llangybi yn ei gael ar hyn o bryd, ac os yw'r sefyllfa am barhau beth fydd yr effaith hirdymor."

**(b) Eitem 94 – Materion Ffyrdd a Llwybrau**

**Derbyniwyd** ymateb gan yr Adran Ffyrdd fel a ganlyn:

*Lon Pant Bach, Bryncroes; Ffordd o Bengopa i Fryncroes a Capel Salem, Sarn i Siop Bella*

"Mae'r ffyrdd yma ar restr waith ail-wynebu i'w blaenoriaethu. Hefyd, yn y cyfamser, bydd y ffyrdd yn cael eu harchwilio yn rheolaidd ac unrhyw ddiffygion brys yn cael sylw priodol."

*Lon o Brookside i Siop Bont, Llangwnnadl; Pont Saithbont, Botwnnog*

"Mae'r gwaith yma wedi'i basio i'r uned waith a chaiff sylw pan fydd adnoddau ar gael."

**(c) Eitem 95 – Awdurdod i dalu**

**Adroddodd** y Clarc:

(1) Iddi wneud ymholiadau ynglyn a'r ffaith fod codiad sylweddol yn y bil archwilio 2019/20 ac i Archwilio Cymru ofyn am wybodaeth am pa anfoneb y cyferiwyd ato. Atebwyd yn ôl yn eu hysbysu fod y cyfeirnod ar yr ohebiaeth anfonwyd yn y lle cyntaf. Nid oedd unrhyw ymateb pellach wedi ei dderbyn.

(2) Fod Mel ab Owain Un Llais Cymru wedi ymateb i'r ymholiad ynglyn a'r ffaith nad ydym wedi derbyn adroddiad blynyddol yn ôl, fel a ganlyn:

"mae llawer iawn o Gynghorau heb gael eu ffurflenni yn ôl gan yr archwiliwr. Gallech wneud cŵyn i'ch Aelod Seneddol (Mabon ap Gwynfor) am safon wael y gwasanaeth.

**Penderfynwyd** aros am ymateb Archwilio Cymru ynglyn a'r anfoneb a pheidio anfon at yr Aelod Seneddol ar hyn o bryd.

**(ch) Ysgol Botwnnog**

**Adroddodd** y Cadeirydd na chafodd unrhyw ymateb gan Bennaeth Ysgol Botwnnog.

**Penderfynwyd** ei adael ar hyn o bryd.

103. **CAIS CYNLLUNIO**

**Cyflwynwyd** y cais C23/0994/32/LL – cais llawn i drosi un uned preswyl i ddau uned preswyl ar wahan – Belle Vue, Sarn Mellteyrn.

**Penderfynwyd** ei gefnogi.

104. **MATERION FFYRDD**

**Penderfynwyd** anfon at yr Adran Priffyrdd i ofyn iddynt roi sylw i'r dŵr sydd yn sefyll ochr uchaf i Garlan, Sarn Mellteyrn.

105. **AWDURDOD I DALU**

**Penderfynwyd** awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| J.A. Pozzi – barbio Comin Bryncroes | £1,050 + TAW (cyfrif cyfredol) (200809) |
| J.A. Pozzi – barbio Llwybr Bach, Botwnnog a thorri gwrych lloches bws Sarn | £ 119 + TAW (cyfrif cyfredol (200809) |
| J.A. Pozzi – barbio Mynwent Llandegwnnig | £ 550 + TAW (cronfa'r fynwent)(100055 |

**Yn y cyswllt hwn** derbyniwyd gwybodaeth gan yr HMRC fod yr apêl wedi ei chaniatau ac fod y £300 wedi ei ddileu. 'Roedd y Cyngor eisoes wedi talu £100 o ddirwy felly 'roedd hwn i'w ad-dalu.

**Penderfynwyd**

(a) Aros i weld a fyddai'r £100 dalwyd yn cael ei ad-dalu gan yr HMRC.

(b) I dalu'r Clarc yn fisol o hyn ymlaen gan dalu dau fis y tro hwn, Ionawr a Chwefror, 2024.

106. **GWASANAETH AMBIWLANS BRYS**

**Rhannwyd** y wybodaeth ddiweddaraf am yr Adolygiad Gwasanaeth GCTMB – oll o'r aelodau wedi cael copi gyda'r rhaglen.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

107. **SYSTEM SGORIO DARPAR DENANTIAID I DAI CYMDEITHASOL**

**Cyflwynwyd** yr e-bost isod gan Dylan Bryn Roberts:

"Rwy'n awyddus i gael sgwrs Cler y Cyngor ogydd ar fater dynodi iaith o fewn system sgorio darpar denantiaid i dai cymdeithasol. Gwaith a wneir ar ran Cwmni Bro Antur Aelhaearn ag Ymddirideolaeth Tir Bro'r Eifl trwy grant Arfor yw hwn ac fe'i hadwenir fel Prosiect tai ag iaith Antur Aelhaearn. Deallaf eich bod chi wrthi ar hyn o bryd yn ystyried hyn gydag Adra o ran tai cymdeithasol newydd arfaethedig ym mhlwyf Botwnnog. Byddai felly yn hynod fuddiol i mi gael sgwrs hefo chi gan mai allbwn pennaf y prosiect yw i ddatblygu model amgen o berchnogaeth tai i bobl leol a methodoleg newydd fydd yn galluogi cynnwys y gallu i siarad Cymraeg yn y broses mewn modd sy'n gydnaws a'r rheolau a'r deddfwriaeth presennol ond sy'n ddilys mewn amgylchiadau ieithyddol neilltuol iawn lle mae'r unig ffordd uniongyrchol i ddiogelu'r Gymraeg yn sector tai lleol yw trwy sicrhau fod yr iaith a defnydd ohoni ymhlith darpar denantiaid yn rhan o'r broses sgorio ceisiadau. Hyd yma nid yw hynny wedi digwydd wrth ddynodi tai lleol a fforddiadwy. Credwn, os ydym am ddiogelu'r Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, bod rhaid mabwysiadu methodoleg o'r fath fel mesur uniongyrchol i gynnal ac atgyfnerthu cymunedau iaith. O'u gweithredu, bydd y model perchnogaeth tai a'r fethodoleg yn fesurau uniongyrchol benodol i daclo'r argyfwng tai yng nghefn gwlad Cymru a cheisio sicrhau bod modd i bobl ifanc a theuluoedd Cymraeg aros yn eu cynefin."

**Penderfynwyd** gwahodd Dylan Bryn Roberts i gyfarfod nesaf y Cyngor.

108. **GARDDWEST YM MHALAS BUCHKINGHAM**

**Cyflwynwyd** gwahoddiad drwy Un Llais Cymru i aelod o'r Cyngor fynychu garddwest ym Mhalas Buckingham ym mis Mai.

**Penderfynwyd** fod cyfle i'w gynnig i'r Cynghorydd Glenys Williams a'i phriod gael mynychu'r Arddwest.

109. **MANYLION I'W RHOI I FYNY YN YR HYSBYSFYRDDAU**

**Rhannwyd** manylion o'r aelodau a.y. i'w roi i fyny yn yr hysbysfyrddau. Cytunodd pawb oedd yn bresennol fod y manylion yn gywir ac eu bod yn fodlon i'r cyfryw gael ei roi i fyny yn yr hysbysfyrddau. Dywedodd y Clarc y byddai yn cysylltu a'r rhai oedd yn absennol er cael eu caniatad hwythau.

110. **GLINIADUR/ARGRAFFYDD A.Y.**

**Cyflwynwyd** pris dderbyniwyd am liniadur/argraffydd a.y. oddeutu £550.00 + TAW. Byddai angen hefyd talu am drosglwyddo'r data.

**Penderfynwyd** symud ymlaen i'r Clarc brynu'r gliniadur a.y.

111. **TRETH Y CYNGOR**

**Penderfynwyd** anfon at Bennaeth Cyngor Gwynedd fel a ganlyn:

"Gyda phryder a gofid y deallwyd neithiwr (nos Lun, 12fed Chwefror, 2024) am y codiad arthurol sydd yn wynebu trethdalwyr Gwynedd a hynny yn yr hinsawdd economaidd rydym yn byw ar hyn o bryd. Ddydd ar ôl dydd rydym yn clywed am dlodi a theuluoedd yn gorfod mynd heb danwydd er bwydo'r plant; rhai hyd yn oed

yn rhynu yn eu cartrefi oherwydd yr ofn o roi y gwresgogydd ymlaen. Gresyn yw fod Cyngor fel Cyngor Gwynedd yn ystyried rhoi pwysau ychwanegol ar deuluoedd fel hyn a hwythau yn methu cael dau ben llinyn ynghyd gyda'r dreth fel ac y mae heb sôn am y codiad sylweddol fydd ar ôl 1af Ebrill, 2024.

Sylweddolwn wrth gwrs fod costau cynnal a chadw pob gwasanaeth wedi codi'n aruthrol ond a ddylai'r Cyngor gadw mewn côf pa effaith mae codiad o'r fath yn ei gael ar deuluoedd sydd yn dioddef. Rhaid cofio ein bod mewn ardal lle mae cyflogau'n isel ar y cyfan; diffyg gwaith a nifer fawr yn gorfod dibynnu ar y Wladwriaeth; y pellter o bob man ac yn golygu costau teithio uwch nag yn y trefi.

Pan yn dod i'r penderfyniad terfynol ar y codiad, hyderwn yn fawr y bydd aelodau'r Cyngor yn ysytired pob llwybr i geisio lleihau'r bwrdwm fydd ar y triogolion."

112. **COMIN BRYNCROES**

**Adroddodd** y Clarc iddi dderbyn tair cŵyn o ardal Bryncroes fod tractor a threlar yn cael ei barcio ar y Comin ac yn ei ddifrodi. Addawodd yr aelodau basio'r neges ymlaen yn y gobaith na fyddai hyn yn digwydd eto.